

Polisi ar Ddyfarnu Grantiau a Darparu Cymorth Ariannol

*Cyhoeddwyd yn unol â gofynion Rheoliadau Safonau'r
Gymraeg (Rhif 6) 2017*



1. RHAGARWEINIAD

Rhoddodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (“y Mesur”) statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru gan alluogi gorfodi safonau'r iaith Gymraeg ar gyff.

Mae'r Safonau'n esbonio sut y dylai cyrff drin a defnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd, gan gynnwys dyfarnu grantiau neu ddarparu cymorth ariannol.

Cânt eu rhannu i bum dosbarth:

- safonau cyflenwi gwasanaethau
- safonau llunio polisi
- safonau gweithredu
- safonau hyrwyddo
- safonau cadw cofnodion

Caiff cydymffurfiaeth sefydliadau eu monitro gan Gomisiynydd y Gymraeg sydd ag awdurdod i ymchwilio i gwynion ac achosion o dorri rheolau cydymffurfiaeth â'r safonau. Yn eu tro gall yr ymchwiliadau hyn arwain at ddyfarniadau llys sirol, camau gorfodi, a dirwyon.

2. DYFARNU GRANTIAU A DARPARU CYMORTH ARIANNOL

Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r hyn y mae rhaid i'r Coleg ystyried yn ystod y broses o ddyfarnu grantiau a darparu cymorth ariannol yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017. Mae yna gyfrifoldeb ar yr holl staff sy'n ymwneud â dyfarnu grantiau neu gymorth ariannol i gadw at y polisi hwn.

Mae'r polisi yn ymwneud â Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 75, 76, 76a, 78 a 79 fel a ganlyn:

Safon 75

- Rhaid i unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu cyhoeddi sy'n ymwneud â cheisiadau am grant neu gymorth ariannol gael eu cyhoeddi yn Gymraeg a rhaid i chi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o'r fath ddogfennau yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt.

Safon 76

- Pan fyddwch yn gwahodd ceisiadau am grant neu gymorth ariannol, rhaid i chi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac na fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Safon 76A

- Rhaid i chi beidio â thrin ceisiadau am grant neu gymorth ariannol a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau, ac mewn perthynas â'r raddfa amser ar gyfer rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau).



Safon 78

- Os byddwch yn derbyn cais am grant neu gymorth ariannol yn Gymraeg a bod angen cyfweid ag ymgeisydd fel rhan o'ch asesiad o'r cais mae rhaid i chi:
 - a) gynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg er mwyn i'r ymgeisydd allu defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweid, ac
 - b) os yw'r ymgeisydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweid, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (oni bai eich bod yn cynnal y cyfweid yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).

Safon 79

- Pan fyddwch yn rhoi gwybod i ymgeisydd beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am grant neu gymorth ariannol, mae rhaid i chi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y cais yn Gymraeg.

Mae Safon 100 Rheoliadau Rhif 6 2017 yn nodi:

- “Rhaid i chi gynhyrchu a chyhoeddi polisi ar ddyfarnu grantiau neu ddarparu cymorth ariannol (neu, ble y bo'n briodol, ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ystyried y materion canlynol pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol:
 - a) pa effeithiau, os o gwbl (a p'un a ydynt yn gadarnhaol neu'n negyddol), y byddai dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol yn eu cael ar:
 - (i) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
 - (ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.
 - b) sut y gellid gwneud neu weithredu'r penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau) fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau mwy cadarnhaol, ar:
 - (i) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
 - (ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.
 - c) sut y gellid gwneud neu weithredu'r penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael llai o effeithiau andwyol ar:
 - (i) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
 - (ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.
 - d) p'un a bod angen i chi ofyn i'r ymgeisydd am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol ar:
 - (i) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
 - (ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.

Safon 157

- Rhaid i chi gadw cofnod o'r camau rydych chi wedi'u cymryd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau llunio polisi y mae dyletswydd arnoch i gydymffurfio â nhw.

Mae'r Coleg yn ymrwymedig i hyrwyddo'r Gymraeg a sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau ym mhob agwedd ar ei waith.



Fel y cyfryw, datblygwyd y polisi hwn i sicrhau bod y gofynion canlynol yn cael eu dilyn drwy gydol y broses o ddyfarnu grantiau a darparu cymorth ariannol:

- cyhoeddir pob deunydd yn Gymraeg
- parchir dewis iaith yr unigolion drwy gydol y broses
- nodir unrhyw effaith ar y Gymraeg, boed yn gadarnhaol, yn negyddol neu'r ddau
- caiff ffyrdd o hyrwyddo'r Gymraeg, gan gynnwys defnyddio'r Gymraeg eu cofnodi a'u rhoi ar waith
- gwneir pob ymdrech i leihau effeithiau andwyol ar y Gymraeg
- gosodir amodau ar unrhyw grant neu gymorth ariannol mewn perthynas â'r Gymraeg lle ystyrir bod angen gwneud hynny

Wrth sefydlu grantiau newydd neu gymorth ariannol, bydd y crëwr yn cyflawni asesiad effaith ar yr effeithiau, boed yn negyddol neu'n gadarnhaol, bydd y grantiau'n cael ar yr iaith Gymraeg er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 94-96.

3. BYDD Y POLISI HWN YN BERTHNASOL:

- Os yw'r Coleg yn dyfarnu grantiau neu gymorth ariannol ar ran corff arall (Llywodraeth Cymru neu unrhyw gorff arall sy'n dod o fewn cwmpas Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ac mae amodau a thelerau penodol y grant/cymorth ariannol yn cynnwys ystyriaethau ynghylch y Gymraeg.
- Os yw'r Coleg yn dyfarnu grantiau/cymorth ariannol y mae wedi'u hariannu ei hun.
- Os yw'r Coleg mewn unrhyw ffordd yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grantiau/cymorth ariannol ar ran sefydliadau nad ydynt wedi'u cynnwys yng nghwmpas Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac nid oes amodau a thelerau penodol mewn perthynas â'r Gymraeg wedi'u nodi yn y grant/cymorth ariannol.

Bydd yr holl geisiadau am grantiau a chymorth ariannol yn cael eu hasesu ar sail eu teilyngdod unigol ac yn unol â'r meini prawf a amlinellir yn y broses gwneud cais.

4. YSTYR 'GRANT' NEU 'GYMORTH ARIANNOL' FEL Y CEIR O GOD YMARFER (DRAFFT) SAFONAU'R GYMRAEG:

- Fel arfer mae 'grant' yn drosglwyddiad parhaol o arian i berson nad oes rhaid ei dalu'n ôl neu ei ddychwelyd.
- Mae'r term 'grant' yn cynnwys unrhyw gymorth y mae corff yn ei roi i berson at brosiect neu ddiben penodol. Fel arfer dim ond rhan o gyfanswm y costau y bydd grant yn talu. Maen nhw fel arfer yn cael eu defnyddio yn unol â thelerau ac amodau penodol.
- Gallai'r term 'cymorth ariannol' gynnwys budd-dal, arian ysgoloriaeth, benthyciad, neu fwsari fel rhai esiamplau ond nid yw'n cynnwys swm o arian sy'n cael ei roi i berson drwy broses gaffael.

5. SUT Y GALL PENDERFYNIADAU AM GRANTIAU EFFEITHIO AR Y GYMRAEG

Mae angen nodi dau fath o effaith ar y Gymraeg. Mae'r effeithiau hynny yn adlewyrchu dau brif amcan y safonau:

- sicrhau cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg
- peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.



Mae ystyr ymarferol 'peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg' yn amrywio o un sefyllfa i'r llall. Ond yn gyffredinol, mae'n golygu peidio â rhoi rhywun dan anfantais os ydynt am ddefnyddio'r Gymraeg, a sicrhau bod yr iaith Gymraeg o leiaf mor amlwg, hygyrch ac o ansawdd cyfartal â'r Saesneg bob amser.

Cynhwysir effeithiau anuniongyrchol yn ogystal ag effeithiau uniongyrchol.

Unwaith y nodir effeithiau posibl, bydd angen nodi p'un a ydynt yn gadarnhaol neu'n andwyol:

- effeithiau cadarnhaol yw'r rheiny sy'n golygu bod yna gynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg, bod y Gymraeg yn fwy gweladwy, neu nad oes unrhyw rwystrau ychwanegol i ddefnyddio Cymraeg, gyda chanlyniadau sydd o leiaf mor ffafriol.
- effeithiau andwyol yw'r rheiny sy'n golygu bod llai o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, bod y Gymraeg yn llai gweladwy, neu fod pobl sydd am ddefnyddio Cymraeg yn wynebu mwy o rwystrau neu ganlyniadau llai ffafriol na phobl sy'n defnyddio Saesneg.

6. AWGRYMWN FOD Y CANLYNOL YN CAEL EI FEWNOSOD YM MHOB CANLLAW AR GYFER YMGEISWYR MEWN PERTHYNAS Â DYFARNU GRANTIAU NEU GYMORTH ARIANNOL

Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 yn gosod gofyniad statudol ar y Coleg i sicrhau bod yr holl grantiau a chymorth ariannol a roddir ganddo yn ystyried p'un a oes ffyrdd y gallai'r fenter gael ei diwygio i gynnwys effeithiau mwy cadarnhaol ar y Gymraeg neu os gellir cynnwys camau i leihau effeithiau negyddol neu eu dileu yn gyfan gwbl.

Wrth gydymffurfio â'r gofyniad statudol hwn, gofynnwn i chi, fel ymgeisydd, roi gwybod i ni drwy'r ffurflen gais sut y gall eich menter effeithio ar y meysydd canlynol:

- *cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg e.e myfyrwyr, staff, preswylwyr ac ymwelwyr*
- *mae ganddo effaith gadarnhaol neu negyddol ar niferoedd y siaradwyr Cymraeg e.e. Addysg cyfrwng Cymraeg, cyfleoedd astudio, cysylltiadau gyda [Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru / Yr Iaith Gymraeg - ein hymrwymiad](#)*
- *cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws, defnydd o wasanaethau iaith Gymraeg, defnyddio'r Gymraeg ym mywyd bob dydd yn y gwaith, ar y campws ac yn y gymuned. Annog a hyrwyddo'n weithredol y defnydd o'n gwasanaethau yn y Gymraeg i weld cynnydd yn y galw dros amser.*
- *peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.*

Bydd y tîm yn asesu eich atebion, gofyn cwestiynau pellach lle bod angen neu fe allant osod amod grant a fyddai'n gofyn i chi gwblhau gweithred benodol er mwyn sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol ar y Gymraeg.

7. BETH DDYLWN I GYNNWYS YN FY FFURFLEN GAIS?

Rhaid ychwanegu'r canlynol, fel cwestiwn gorfodol, at bob ffurflen gais, er mwyn sicrhau bod y Coleg yn cydymffurfio â'i Safonau Iaith Gymraeg trwy ofyn i'r ymgeisydd roi ychydig o ystyriaethau i ni cyn ein trafodaethau ein hunain:



Rhowch wybod i ni:

- *Sut y tybiwch chi gallai'r grant neu gymorth ariannol effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg (Cadarnhaol a Negyddol). Hefyd, p'un a ydy, mewn unrhyw ffordd yn trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg?*
- *Sut ellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?*

8. BETH DDYLWN I GYNNWYS YN Y TELERAU AC AMODAU?

Rydyn ni'n awgrymu y dylid cynnwys y canlynol yn yr holl delerau ac amodau a gyhoeddir gan y Coleg ar gyfer grantiau a chymorth ariannol.

“Dyfernir y grant/cymorth ariannol hwn yn unol â gofynion ein Polisi ar Ddyfarnu Grantiau, a gyhoeddwyd i sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif.6) 2017, dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Er mwyn bodloni gofynion y telerau ac amodau hyn rhaid i chi gydymffurfio â'r isod

<<rhoch amodau grant penodol mewn perthynas â'r Gymraeg>>

Neu

<<rhestrwch gamau a nodir gan yr ymgeisydd i sicrhau effeithiau cadarnhaol, neu i leihau effeithiau negyddol (bydd y rhain wedi cael eu trafod yn ystod y cam gwneud penderfyniad). >>”

Mewn rhai achosion, gall fod yn briodol i orfodi amod ar grant er mwyn sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol ar y Gymraeg. Gallai hyn fod mor syml â gofyn i ymgeiswyr arddangos arwyddion dwyieithog neu fod gweithgareddau'n cael eu darparu yn y Gymraeg.

Dylai unrhyw ofyniad i adrodd ynghylch defnydd o'r grant neu gymorth ariannol hefyd gynnwys gofyniad i adrodd ar effeithiau'r iaith Gymraeg.

9. CASGLIAD

Mae'r Coleg yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg wrth hyrwyddo Cymru ddwyieithog ac mae'n ymrwymedig i hyrwyddo ei defnyddio drwy ddyfarnu grantiau a chymorth ariannol. Mae'r polisi hwn yn datgan ein hymrwymiad i gydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif.6) 2017, a sicrhau yr ystyrir y Gymraeg drwy gydol y broses o ddyfarnu grantiau a chymorth ariannol.